# Yr hyn a ariannwn

Darganfyddwch pa dreftadaeth rydyn ni'n ei chefnogi, a beth allwch chi wario'r arian arno.

Rydym yn ariannu amrywiaeth eang o brosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth genedlaethol, rhanbarthol a lleol y DU.

## Beth yw treftadaeth?

Dydyn ni ddim yn diffinio treftadaeth. Gofynnwn i chi ddweud wrthym beth rydych chi'n ei feddwl sy'n bwysig a dylid ei warchod a'i gadw.


O adeiladau hanesyddol, ein hetifeddiaeth ddiwydiannol a'r amgylchedd naturiol, i gasgliadau, traddodiadau, straeon a mwy – **gall treftadaeth fod yn unrhyw beth o'r gorffennol rydych chi'n ei werthfawrogi ac eisiau ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.**

## Gallai eich prosiect treftadaeth gynnwys:

- **gwaith natur** i wella cynefinoedd neu warchod rhywogaethau, yn ogystal â helpu pobl i gysylltu â natur yn eu bywydau bob dydd.
- **tirweddau wedi'u cynllunio** sy'n gwella ac yn gwarchod tirweddau hanesyddol fel parciau cyhoeddus, gerddi hanesyddol a gerddi botanegol.
- **tirweddau a chefn gwlad** - prosiectau gwledig ar raddfa fawr sy'n helpu i wella tirweddau i bobl a natur, drwy, er enghraifft, adfer cynefinoedd a dathlu traddodiadau diwylliannol y tir.
- **recordiadau hanes llafar o straeon, atgofion a chaneuon** pobl, fel ffordd o gyfathrebu a datgelu'r gorffennol.
- **traddodiadau diwylliannol** sy'n archwilio hanes gwahanol ddiwylliannau drwy adrodd straeon, neu bethau a wnewch fel rhan o'ch cymuned. Gallai hyn fod yn unrhyw beth o ddawns a theatr, i fwyd neu ddillad. Gallai hefyd gynnwys treftadaeth ieithoedd a thafodieithoedd.
- **coffáu a dathliadau** yn adrodd straeon a hanesion pobl, cymunedau, lleoedd neu ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig ag amseroedd a dyddiadau penodol
- **adeiladau hanesyddol, henebion a'r amgylchedd hanesyddol** o dai a melinau, i ogofâu a gerddi. Ardaloedd sy'n gysylltiedig â hanes a threftadaeth.
- **archaeoleg gymunedol** yn cynnwys cyfranogiad gweithredol gwirfoddolwyr mewn gweithgareddau archeolegol, popeth o ymchwilio, tynnu lluniau, arolygu i brosesu darganfyddiadau. Weithiau gall gynnwys cloddio. Weithiau fe'i gelwir yn archaeoleg gyhoeddus.
- **amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau** sy'n gwneud y casgliadau y mae amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yn eu dal yn fwy hygyrch drwy arddangosfeydd newydd, gwella adeiladau ac orielau cyhoeddus, neu ymgysylltu â phobl i ddehongli casgliadau newydd a phreig

- **caffael gwrthrychau newydd** yn helpu tuag at y gost o gaffael gwrthrychau neu gasgliadau untro fel rhan o bolisi datblygu casgliadau
- **diwydiannol, morwrol a thrafnidiaeth** gallai hyn fod yn lleoedd a gwrthrychau sy'n gysylltiedig â'n hanes diwydiannol, morwrol a thrafnidiaeth

## Prosiectau rydym wedi'u hariannu



## Angen ysbrydoliaeth?

Darganfyddwch prosiectau rydym wedi'u hariannu

Archwilio prosiectau

## Beth allwch chi wario'r arian arno

Gellir defnyddio'r arian rydych chi'n ei dderbyn ar gyfer:

- **gweithgareddau**: ymgysylltu â'r gymuned ehangach yn eich treftadaeth. Gallent gynnwys teithiau cerdded treftadaeth dan arweiniad, rhannu hanesion llafar, neu weithdai. Dylai eich gweithgareddau gysylltu â ffocws treftadaeth eich prosiect a gored i anghenion y cynulleidfaoedd yr ydych am weithio gyda nhw, gan gynnwys addasiadau rhesymol.
- **atgyweirio a chadwraeth**
- **allbynnau digidol**: gallai hyn fod yn ddelweddau digidol, ffeiliau sain neu ddata, gwefan gyda deunydd treftadaeth, ap, neu ffilm a wnaed gan ddefnyddio technoleg ddigidol
- **swyddi staff newydd**: gallai hyn gynnwys rhan o rôl gweithwyr presennol, pe baent yn rhoi amser penodol i'r prosiect
- **lleoliadau hyfforddi â thâl**: gallai hyn hefyd gynnwys hyfforddiant i staff presennol, i gefnogi nodau'r prosiect
- **ffioedd proffesiynol**: yn cynnwys unrhyw un sy'n gysylltiedig â'ch prosiect yn broffesiynol, o benseiri a gweithwyr treftadaeth proffesiynol i staff addysgu

## Ni allwch wario'r arian ar y canlynol:

- **swyddi staff presennol neu gostau sefydliadol**: oni chlir drwy **adennill costau llawn** sy'n golygu sicrhau cyllid ar gyfer yr holl gostau sy'n gysylltiedig â rhedeg prosiect. Felly gallwch ofyn am gyllid ar gyfer costau prosiect uniongyrchol a hefyd am ran o orbenion eich sefydliad
- **atgyweiriadau i'ch cartref eich hun**
- **cyfrifoldebau cyfreithiol a/neu statudo**l: mae'n cynnwys unrhyw beth y byddai'n talu amdano beth bynnag, p'un a aeth y prosiect yn ei flaen ai peidio. Er enghraifft, rhent, cyfleustodau, cynnal a chadw adeiladau, oni bai bod gennych grant menter treftadaeth.
- **hyrwyddo achosion neu gredoau sefydliadau gwleidyddol neu ffydd**
- **TAW adenilladwy**
- **costau ar gyfer unrhyw weithgaredd sydd wedi digwydd cyn dyfarnu grant**
- **costau ar gyfer gosod glaswellt neu blanhigion artiffisial**

## Archwilio'r cyllid sydd ar gael

**Dod o hyd i'r rhaglen ariannu gywir i chi**

## A oes angen cymorth pellach arnoch gyda'ch cais?

Rydym am sicrhau bod ein cyllid yn agored ac yn hygyrch i bawb. Rydym wedi nodi cynllun i ddiwallu anghenion mynediad pobl, o wasanaethau cyfieithu i gymorth ymgeisio digidol.

**Darllenwch fwy am yr addasiadau rhesymol y gallwn eu gwneud i chi**

# Sut i wneud cais

Mae’r canllaw cam wrth gam hwn yn amlinellu ein proses ymgeisio ar gyfer Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, o ddeall yr hyn yr ydym yn ei gefnogi i wneud cais am grant a’i dderbyn.

**Dim ond i’n rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol y mae'r canllaw hwn yn berthnasol.**

O bryd i'w gilydd rydym yn dosbarthu **rhaglenni ariannu eraill**, gan gynnwys ar gyfer llywodraethau ar draws y DU. Cyfeiriwch at dudalen arweiniad pob rhaglen i gael gwybod ar gyfer pwy y mae'r rhain, beth yw eu nodau a sut i wneud cais.

## 1. Deall yr hyn a ariannwn

Rydym yn ariannu prosiectau o bob maint sy'n gofalu am dreftadaeth y DU. Cyn i chi ddechrau, darganfod mwy am yr hyn a ariannwn.

## 2. Datblygu syniad prosiect

Mae ein rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cynnig ariannu ar ddwy lefel:

- £10,000 i £250,000
- £250,000 i £10miliwn

Darllenwch y dudalen arweiniad ar gyfer pob amrediad yn ofalus er mwyn deall:

- beth mae'r rhaglen yn ei gynnig
- at bwy y mae wedi'i anelu
- y gwahaniaeth y mae angen i'ch prosiect ei wneud

Darganfyddwch sut i ddeall ac egluro eich treftadaeth i gefnogi eich cais am gyllid. Gallwch hefyd weld prosiectau rydym wedi'u hariannu'n flaenorol am ysbrydoliaeth.

## 3. Derbyn adborth ar eich syniad ar gyfer prosiect

- £10,000 i £250,000: gallwch ddefnyddio ein Ymholiad Prosiect dewisol i dderbyn adborth o fewn 10 diwrnod gwaith.
- £250,000 i £10m: rhaid i chi gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb cyn dechrau cais am ariannu llawn.?Dylech dderbyn adborth o fewn 20 diwrnod gwaith.

## 4. Cyflwyno cais am ariannu

Defnyddiwch ein gwasanaeth Cael ariannu ar gyfer prosiect treftadaeth pan fyddwch yn barod i gyflwyno'ch cais. Bydd y gwasanaeth yn eich arwain trwy'r gwahanol gamau.

### Gwneud cais am fwy na £250,000?

1. Os ydych am wneud cais am fwy na £250,000, mae'n rhaid i chi gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb yn y lle cyntaf.
2. Os yw eich Mynegiad o Ddiddordeb yn llwyddiannus, byddwch wedyn yn cyflwyno cais **cam datblygu**.
3. Os bydd eich cais cam datblygu'n llwyddiannus, byddwch yn cael eich ariannu a bydd gennych hyd at ddwy flynedd i ddatblygu cynnig prosiect manwl ar gyfer eich cais **cam cyflwyno**.
4. Pan fyddwch yn barod, byddwch wedyn yn cyflwyno eich cais **cam cyflwyno**.

### Ein terfynau amser ymgeisio

- **£10,000 i £250,000**: ar agor drwy gydol y flwyddyn
- **£250,000 i £10m (camau datblygu a chyflwyno)**: terfynau amser ymgeisio chwarterol

## 5. Derbyn penderfyniad ar eich cais

- Ar ôl ei dderbyn, caiff eich cais ei wirio i sicrhau bod eich sefydliad yn gymwys a bod yr holl ddogfennaeth ofynnol wedi'i hatodi.
- **£10,000 i £250,000**:  Ar ôl cwblhau'r gwiriadau ymgeisio, dylech dderbyn penderfyniad o fewn wyth wythnos. Gwneir penderfyniadau mewn cyfarfodydd lleol bob mis.
- **£250,000 i £5m (camau datblygu a chyflwyno)**: Byddwn yn cymryd hyd at 12 wythnos i asesu eich cais. Wedyn fe gaiff ei gyflwyno i un o'n cyfarfodydd Pwyllgor chwarterol.?Byddwch yn derbyn penderfyniad cyn gynted â phosibl ar ôl cyfarfod.
- **Dros £5m (camau datblygu a chyflwyno)**:?Byddwn yn cymryd hyd at 12 wythnos i asesu eich cais. Wedyn fe gaiff ei gyflwyno i un o'n cyfarfodydd Pwyllgor chwarterol ac wedi hynny i un o'n cyfarfodydd Bwrdd. Byddwch yn derbyn penderfyniad cyn gynted â phosibl ar ôl cyfarfod Bwrdd.

### Os ydych yn llwyddiannus

Byddwch yn defnyddio ein gwasanaeth ar-lein i dderbyn a rheoli eich grant. Cael gwybod mwy am beth fydd yn digwydd os dyfernir grant i chi:

- Derbyn eich grant: £10,000 i £250,000
- Derbyn eich grant: £250,000 i £10m

### Os nad ydych yn llwyddiannus

Byddwn yn rhoi adborth ar eich cais cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod penderfynu. Gallwch ddewis ailymgeisio wedyn gyda chais diwygiedig ond mae'n rhaid i chi siarad â ni am hyn yn gyntaf.

# Egwyddorion buddsoddi

02/10/2023
02/10/2023
See all updates
Archwiliwch y gwahaniaeth yr ydym am i'n hariannu ei wneud dros dreftadaeth.

Mae ein pedair egwyddor buddsoddi yn cyfeirio ein holl benderfyniadau am grantiau.

Mae'n rhaid i chi gymryd pob un o'r pedair egwyddor i ystyriaeth yn eich cais. Eich cyfrifoldeb chi yw dangos cryfder y ffocws, a'r pwyslais ar bob egwyddor.

Ystyriwch y canlynol: Sut mae eich prosiect yn adlewyrchu'r hyn yr ydym am ei wneud dros dreftadaeth? Sut y bydd yn ein helpu i gyflawni ein huchelgeisiau dros dreftadaeth?

## Achub treftadaeth

**Gwarchod a gwerthfawrogi treftadaeth, nawr ac yn y dyfodol.**

## Beth mae hyn yn ei olygu

Bydd ein cefnogaeth yn sicrhau bod treftadaeth yn parhau i fod yn hygyrch, yn berthnasol, yn gynaliadwy ac wedi'i gwerthfawrogi.

## Beth fyddwn ni’n gwneud

**Treftadaeth mewn perygl:** Byddwn yn ymrwymo cyllid i ddiogelu, gwarchod ac adfywio treftadaeth o bob math sydd mewn cyflwr gwael neu mewn perygl o ddirywio, gael ei difrodi, ei hesgeuluso, ei cholli neu ei hanghofio – gan sicrhau y caiff ei gwerthfawrogi a'i deall yn well.

**Buddsoddi mewn lleoedd**: Mae gan dreftadaeth rôl unigryw wrth ddod â phobl at ei gilydd yn y lleoedd y maent yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â nhw. Byddwn ni'n gwella cysylltiadau pobl â threftadaeth eu lleoedd lleol drwy fuddsoddi a dargedir at ein hamgylchedd hanesyddol a naturiol.

**Adfywio a chynnal**: Byddwn yn gwahodd cynigion i weithio gyda ni i ddatblygu'r sgiliau, y capasiti a'r arloesedd i gynnal a rheoli treftadaeth. Byddwn yn nodi cyfleoedd i adfywio mathau amrywiol o dreftadaeth.

## Beth rydym eisiau ei gyflawni

**Erbyn 2033 byddwn wedi:**

- Gwella cyflwr, hyfywedd a dealltwriaeth y cyhoedd o filoedd o safleoedd treftadaeth, casgliadau, cynefinoedd, rhywogaethau a threftadaeth ddiwylliannol anniriaethol.
- Gostwng, mewn ffordd y gellir ei mesur, maint y dreftadaeth a nodir ei bod 'mewn perygl', boed hynny drwy golled, wynebu difodiant, cael ei asesu fel bod mewn cyflwr gwael neu anffafriol neu mewn perygl o gael ei hanghofio.
- Cyflwyno prosiectau hirdymor i drawsnewid ardaloedd lleol, trefi, dinasoedd a thirweddau drwy fabwysiadu ymagwedd a dargedir at wella cyflwr treftadaeth a balchder pobl yn eu hamgylchedd lleol.
- Sicrhau bod yr adnoddau treftadaeth ddigidol a gefnogwn yn agored ac yn hygyrch ac y gall cenedlaethau'r dyfodol eu darganfod.

# Diogelu'r amgylchedd

**Cefnogi adferiad natur a chynaladwyedd amgylcheddol.**

## Beth mae hyn yn ei olygu

Byddwn ni'n cefnogi treftadaeth naturiol a phrosiectau amgylcheddol gynaliadwy sy'n helpu'r DU i gyrraedd ei thargedau adferiad natur ac i liniaru effaith newid yn yr hinsawdd ar dreftadaeth.

## Beth fyddwn ni’n gwneud

**Tirweddau**: Byddwn ni'n cynyddu ein cefnogaeth dros brosiectau strategol ac ar raddfa tirweddau – rhai gwledig a threfol fel ei gilydd – sy'n helpu cynefinoedd a rhywogaethau i ffynnu, gan isafu a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac ar yr un pryd helpu pobl i gysylltu â'n treftadaeth naturiol unigryw.

**Natur**: Byddwn ni'n buddsoddi drwy bartneriaethau i helpu i atal a gwrthdroi colled a dirywiad cynefinoedd a rhywogaethau.

**Ôl troed amgylcheddol**: Byddwn yn cefnogi prosiectau treftadaeth sy'n lleihau effeithiau amgylcheddol niweidiol ac yn helpu treftadaeth i addasu i'n hinsawdd sy'n newid. Os yw prosiectau'n ymwneud ag adeiladwaith, byddwn ni'n annog adfer, gwarchod ac ailddefnyddio, yn hytrach nag adeiladu o'r newydd.

**Lliniaru**: Byddwn yn cydweithio i ddod â rhanddeiliaid treftadaeth naturiol, adeiledig a diwylliannol ynghyd i nodi a lliniaru risgiau i dreftadaeth o'r hinsawdd a chynnwys pobl wrth sicrhau newid ymddygiad cadarnhaol.

### Beth rydym eisiau ei gyflawni

**Erbyn 2033 byddwn wedi:**

- Cychwyn adferiad tirluniau a chynefinoedd mewn mannau trefol a gwledig, fel eu bod yn cefnogi treftadaeth naturiol doreithiog a systemau naturiol iach.
- Cynyddu dealltwriaeth a chysylltiad pobl â natur ar draws trefi, dinasoedd a'r cefn gwlad.
- Isafu effaith amgylcheddol negyddol ac ôl-troed carbon ein portffolio ariannu.
- Gwella galluoedd treftadaeth naturiol a diwylliannol wrth gynllunio ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac addasu iddo, a helpu prosiectau i weithredu dros yr amgylchedd.

## Cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad

**Cefnogi gwell cynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth.**

### Beth mae hyn yn ei olygu

Byddwn yn cefnogi sefydliadau i sicrhau bod gan bawb gyfleoedd i ddysgu, datblygu sgiliau newydd a fforio treftadaeth, beth bynnag fo'u cefndir neu amgylchiadau personol.

### Beth fyddwn ni’n gwneud

**Cynnwys gwell amrywiaeth o bobl mewn treftadaeth**, gan fuddsoddi mewn gwirfoddoli, gyrfaoedd treftadaeth, cyd-greu prosiectau, arweinyddiaeth, llywodraethu a datblygu gwybodaeth a sgiliau.

**Galluogi sefydliadau i ddileu rhwystrau i fynediad a chyfranogiad**, yn enwedig i bobl sydd heb gael eu gwasanaethu'n ddigonol gan dreftadaeth.

**Cefnogi pob cymuned i ymchwilio i'w treftadaeth a'i rhannu**, gan ganolbwyntio ar wneud storïau ein pedair gwlad yn fwy cynhwysol o dreftadaeth pawb.

**Adnoddau treftadaeth ddigidol hygyrch**: Cefnogi gwell defnydd o dechnoleg ddigidol i wneud treftadaeth yn fwy hygyrch a phleserus, a hyrwyddo gwell mynediad at wybodaeth am dreftadaeth, gan alluogi prosiectau i gynyddu eu heffaith a'u cyrhaeddiad.

### Beth rydym eisiau ei gyflawni

**Erbyn 2033 byddwn wedi:**

- Cynyddu amrywiaeth gweithluoedd, arweinyddiaeth a chynulleidfaoedd treftadaeth.
- Mynd i'r afael â'r rhwystrau i fynediad ar gyfer pobl sydd heb gael eu gwasanaethu'n ddigonol gan dreftadaeth, gan ddarparu cyfleoedd mwy teg i ymwneud a chymryd rhan yn weithredol.
- Cyfoethogi bywydau pobl trwy ein buddsoddiadau, gan alluogi treftadaeth pawb i gael ei chydnabod.
- Cefnogi pobl i ddefnyddio technoleg ddigidol mewn treftadaeth yn greadigol er mwyn hybu mynediad a chyrhaeddiad.

## Cynaladwyedd sefydliadol

**Cryfhau treftadaeth er mwyn iddi addasu a bod yn gydnerth yn ariannol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau.**

### Beth mae hyn yn ei olygu

Byddwn yn cefnogi sefydliadau i ddatblygu'r sgiliau a'r capasiti i sicrhau dyfodol cadarn yn y tymor hir ac annog buddsoddi newydd mewn treftadaeth y bydd cymunedau ac economïau'n elwa ohono.

### Beth fyddwn ni’n ei wneud

**Cefnogi cynaladwyedd ariannol:** Byddwn yn parhau i gynnig ariannu i adeiladu cydnerthedd, gan ddarparu capasiti ac arbenigedd i sefydliadau ddatblygu eu cynlluniau sefydliadol ac ariannol hirdymor.

**Cefnogi datblygu sgiliau treftadaeth**: Byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd i adeiladu capasiti, sgiliau ac arbenigedd ym maes treftadaeth, er mwyn cyfrannu at gymunedau ac economïau ffyniannus.

**Darparu cyllid hyblyg**: Byddwn yn cynnig cymorth ariannol hyblyg yng nghamau cynnar cynllunio prosiectau ar gyfer dadansoddi a gweithgareddau paratoi. Byddwn hefyd yn sicrhau bod arian dilynol ar gael am gyfnodau amser cyfyngedig ar ôl cwblhau prosiectau cyfalaf sylweddol i helpu i ymwreiddio sefydlogrwydd gweithredol.

**Cyllid a buddsoddi newydd:** Byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o ffynonellau incwm mwy amrywiol fel cyllid gwyrdd a dulliau masnachol ac yn helpu i adeiladu'r capasiti a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflwyno hyn.

### Beth rydym eisiau ei gyflawni

**Erbyn 2033 byddwn wedi:**

- Cefnogi sefydliadau i gynyddu eu cynaladwyedd ariannol a sefydliadol drwy ddatblygu eu sgiliau masnachol a digidol a chryfhau llywodraethu ac arweinyddiaeth.
- Cefnogi datblygu sgiliau a chapasiti yn y sector treftadaeth.
- Defnyddio ein model ariannu hyblyg i ymwreiddio cydnerthedd yn y prosiectau rydym yn eu hariannu.
- Galluogi'r sector treftadaeth i gryfhau ei gyfraniad at economïau a chymunedau lleol.

# Mentrau strategol

Mae yna nifer o ffyrdd yr ydym yn cefnogi ac yn buddsoddi mewn treftadaeth. Cael gwybod mwy am rai o'n hymyriadau arfaethedig a sut y byddwn yn eu cyflawni.

Rydym am greu'r effaith a'r budd mwyaf i dreftadaeth y DU o'n hariannu.

Mae ein mentrau strategol yn ffordd i ni fynd i'r afael â materion treftadaeth hirsefydlog ar raddfa fawr, cefnogi dulliau cydgysylltiedig traws-tiriogaethol a rhoi syniadau ac arloesiadau newydd ar waith yn gyflym.

Dros oes ein strategaeth 10 mlynedd, Treftadaeth 2033, rydym yn disgwyl cyflwyno amrywiaeth o fentrau. Mae'r rhai yr ydym yn gweithio arnynt ar hyn o bryd yn cynnwys:

Expand All accordions

## Lleoedd Treftadaeth

Rydym am roi hwb i falchder mewn lle a chysylltiad â threftadaeth ar draws lleoedd cyfan yn hytrach na phrosiectau unigol. Ein nod yw gwneud treftadaeth yn rhan annatod o gynlluniau a dulliau sy'n gwneud ardaloedd lleol yn lleoedd gwell i fyw, gweithio ac ymweld â nhw.

Ym mis Hydref 2023 fe wnaethom gyhoeddi'r naw cyntaf o hyd at 20 o leoedd ledled y DU lle byddwn yn buddsoddi £200miliwn:

- Dinas Armagh, Banbridge a Craigavon
- Swydd Durham
- Glasgow
- Caerl?r
- Medway
- Castell-nedd Port Talbot
- Gogledd-ddwyrain Swydd Lincoln

- Stoke-on-Trent
- Torbay

### Ystyriaethau ar gyfer cais Lleoedd Treftadaeth:

- rhaid i weithgareddau prosiect craidd cael ei leoli yn mewn un o'n lleoedd treftadaeth
- dylai prosiectau fod yn rhan o uchelgais ehangach i wella neu drawsnewid yr ardal, gyda chefnogaeth partneriaid a sefydliadau lleol
- dylai prosiectau fod yn gydweithredol a bydd angen iddynt ddangos tystiolaeth o gefnogaeth gan bartner(iaid) lleol

### Os ydych yn gwneud cais i un o'n Lleoedd Treftadaeth a nodwyd:

- cysylltwch â'ch tîm lleol i gael cyngor ar eich prosiect treftadaeth cyn gwneud cais
- Cyflwynwch Ymholiad Prosiect (ceisiadau hyd at £250,000) am gyngor ychwanegol. Ar gyfer ceisiadau dros £250,000 rhaid i chi gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb cyn gwneud cais.
- dilynwch ein harweiniad Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol i baratoi a chyflwyno eich cais
- dechreuwch deitl eich prosiect gyda'r hashnod '#HP' fel y gallwn weld ei fod yn gais Lleoedd Treftadaeth

### Brand a chydnabyddiaeth

Dylai prosiectau ddefnyddio ein canllaw cydnabyddiaeth ar gyfer Lleoedd Treftadaeth.

Cael gwybod mwy am ein menter strategol Lleoedd Treftadaeth a bwrw golwg ar ein hyb Lleoedd Ffyniannus ar gyfer astudiaethau achos, straeon a blogiau seiliedig ar le.

Expand All accordions

## Cysylltiadau Tirwedd

Rydym eisiau helpu Tirweddau Gwarchodedig dynodedig a thirweddau eraill o safon fyd-eang ar draws y DU i fod yn well ar gyfer byd natur a chroesawu pobl o bob cefndir yn well, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn ymweld â nhw'n aml ar hyn o bryd.

Byddwn yn buddsoddi £150miliwn drwy tua 20 o brosiectau hirdymor mewn:

- Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr
- Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Ngogledd Iwerddon
- Parciau Cenedlaethol a thirweddau eraill sydd yr un mor bwysig o safon fyd-eang yn Yr Alban

Ein nod yw cefnogi'r rhai sy'n gofalu am y lleoedd hyn i'w cryfhau fel tirweddau gweithiol, sy'n fwrlwm o natur ac yn darparu gofod i bobl ymlacio a chysylltu â'r amgylchedd. Byddwn yn cefnogi tirweddau cyfan i greu gwelliant arwyddocaol a pharhaus.

Darllen mwy am uchelgeisiau’r fenter strategol hon yn ein stori newyddion.

## Ystyriaethau ar gyfer cais Cysylltiadau Tirwedd

Gall cam cyflwyno eich prosiect bara hyd at wyth mlynedd (sef cynnydd o’n pum mlynedd arferol), ac felly byddwn yn cefnogi hyblygrwydd wrth gadarnhau arian partneriaeth yn ystod y cam cyflwyno.

Yn ychwanegol at ofynion safonol ein Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, gan gynnwys ymateb i bob un o’r pedwar egwyddor fuddsoddi, dylai eich cais am brosiect:

- gynnwys ardal o Dirwedd Warchodedig ddynodedig wrth ei wraidd er y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn Yr Alban
- esbonio pam fod ffin benodol wedi'i dewis, gan sicrhau bod maint yr ardal yn gydnaws â'r cais am grant er mwyn i gyflwyno, ymgysylltu ac effaith fod yn gyson ar draws ardal gyfan y prosiect
- dilyn ein canllawiau ar gyfer cynhyrchu Cynllun Gweithredu Ardal yn ystod y cam datblygu, gan roi'r prif ffocws o gynhyrchu gweledigaeth prosiect a glasbrint ar gyfer cyflwyno'r prosiect, yng nghyd-destun unrhyw gynllun rheoli statudol ehangach a strategaeth adferiad byd natur.
- neilltuo adnoddau i ymuno â sesiynau gwaith carfan chwarterol, cyfrannu at waith carfan a mynychu ymweliadau wyneb yn wyneb i ddysgu o brosiectau eraill
- Neilltuo adnoddau i fesur effaith eich prosiect o ran adferiad byd natur ac ennyn diddordeb pobl fel bod modd asesu cyfraniad y buddsoddiad hwn at gyrraedd targedau adferiad byd natur y DU. Lle maent yn bodoli, dylid defnyddio fframweithiau canlyniadau llywodraeth. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn i grantïon adrodd data ychwanegol trwy offer casglu data ar-lein.

Rydym yn diweddaru ein harweiniad ar ddefnyddio arian ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol fel arian partneriaeth ar gyfer prosiectau, a bydd ar gael yn fuan.

Mae'n annhebygol y bydd caffaeliadau tir mawr yn cael eu cefnogi gan Cysylltiadau Tirwedd.

Ein huchelgais erbyn 2033 yw ein bod wedi cefnogi tua 20 o brosiectau sy’n:

- galluogi pawb yn y DU i gael mynediad at dirweddau sy’n gyfoethog o ran natur, d?r glân ac awyr iach, lleoedd sy’n ysbrydoli gyda'u harddwch a’u treftadaeth ddiwylliannol
- helpu'r tirweddau hyn i fod yn well ar gyfer byd natur ac o ran croesawu pobl o bob cefndir yn well, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn ymweld â nhw'n aml ar hyn o bryd
- beiddgar o ran eu huchelgais ac yn creu canlyniadau mesuradwy ar gyfer Tirweddau Gwarchodedig a thirweddau eithriadol cyfatebol yn Yr Alban
- cefnogi’r rhai sy’n byw yn y lleoedd hyn ac yn gofalu amdanynt i’w cryfhau fel tirweddau gweithredol yn seiliedig ar ddiagnosis clir o pam mae’r dirwedd yn methu â chyflawni ar gyfer byd natur a phobl ar hyn o bryd a sut y bwriedir mynd i’r afael â hynny
- cyflymu adferiad byd natur systemig a pharhaol ar draws tirweddau cyfan, gan greu a rhannu enghreifftiau o sut y gellir cyflwyno cadwraeth tirweddau ac adferiad byd natur gyda, gan a thros y bobl sy’n byw ac yn gweithio ynddynt
- creu fframweithiau arloesol o ran y ffyrdd y gall cymunedau, tirfeddianwyr, sefydliadau a’r rhai sy’n rheoli’r tir gydweithio’n deg i gytuno ar sut i ddylanwadu ar newid a’i ysgogi er mwyn

sicrhau etifeddiaeth barhaus

Argymhellwn i chi ddarllen ein canllaw arfer da ar Dir, Môr a Natur wrth baratoi eich cais.

## Brand a chydnabyddiaeth

Dylai prosiectau ddefnyddio ein canllaw cydnabyddiaeth ar gyfer Cysylltiadau Tirwedd.

## Pwy all ymgeisio

Mae ceisiadau'n agored i sefydliadau nid-er-elw, a phartneriaethau a arweinir gan sefydliadau nid-er-elw, ym mhob cwr o'r DU.

Rhaid i gyrff rheoli Tirwedd Warchodedig fod yn bartner allweddol mewn unrhyw gais sy'n gysylltiedig â'r dirwedd y maent yn gweithredu ynddi a lle y bydd y gwaith yn digwydd, er nad oes angen iddynt fod yn ymgeisydd neu'n bartner arweiniol mewn cais.

Os yw perchnogion preifat neu sefydliadau er-elw yn gysylltiedig â'r prosiect, rydym yn disgwyl i chi ddangos bod y budd cyhoeddus yn amlwg yn fwy na'r elw preifat.

Rydym yn annhebygol o ariannu mwy nag un prosiect o Dirwedd Warchodedig unigol.

## Sut i wneud cais

Gallwch wneud cais am grant hyd at £10m drwy ein Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol £250,000 i £10m. Gofynnir i chi roi '#LC' ar ddechrau teitl eich prosiect a chynnwys 'Cysylltiadau Tirwedd' yn y teitl, er enghraifft Cysylltiadau Tirwedd [enw'r ardal].

Os oes gennych ddiddordeb mewn datblygu prosiect Cysylltiadau Tirwedd ond nad ydych yn barod i wneud cais am grant ar raddfa fawr eto, dylech ystyried ymgymryd â gwaith paratoadol gan ddefnyddio ein Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol £10,000 i £250,000.

Gellid defnyddio'r ariannu hwn i'ch helpu paratoi ar gyfer cais mwy sylweddol trwy, er enghraifft:

- recriwtio arbenigedd ac adnoddau ychwanegol
- cefnogi creu partneriaeth newydd
- ymgymryd â gwaith dichonoldeb cychwynnol
- cefnogi gwaith ymgysylltu â chymunedau a sefydliadau lleol
- helpu i gyfleu gweledigaeth gychwynnol y prosiect

Ar gyfer grantiau hyd at £250,000, gallwch gyflwyno Ymchwiliad Prosiect dewisol i dderbyn adborth ar eich syniad prosiect.

Ar gyfer grantiau dros £250,000 rhaid i chi gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb yn gyntaf.

## Sut rydym yn gwneud penderfyniadau

Yn ogystal â’n prosesau o dan y rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, byddwn yn asesu sut mae eich prosiect yn ymdrin ag uchelgeisiau’r fenter strategol.

Mae’n bosibl y byddwn hefyd yn ystyried materion fel sicrhau lledaeniad daearyddol o’n hariannu.

Ar gyfer y fenter strategol hon, bydd penderfyniadau ar grantiau o dan £250,000 yn cael eu gwneud bob mis gan uwch staff buddsoddi neu ymgysylltu eich gwlad neu ardal. Gyda grantiau o fwy na £250,000, bydd argymhellion yn cael eu gwneud gan bwyllgorau gwlad/ardal, a bydd penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud bob tri mis gan ein Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Expand All  accordions

# Treftadaeth mewn Angen: Addoldai

Rydym am helpu addoldai ar draws y DU i fynd i’r afael â heriau treftadaeth yn systematig, dod yn fwy cynaliadwy, rhannu eu treftadaeth a chroesawu pobl o bob cefndir, gan gynnwys y rhai sy’n ymweld yn anaml.

Byddwn yn buddsoddi o leiaf £15 miliwn mewn prosiectau sy'n cael effaith strategol ar lefel ranbarthol neu genedlaethol ar gyfer addoldai dros y tair blynedd nesaf.

A hwythau'n gyfoeth o ddiwylliant a chasgliadau, mae addoldai'n adrodd hanes newidiadau crefyddol, cymdeithasol ac economaidd pobl y DU. Rydym yn cydnabod graddfa'r heriau sy’n wynebu addoldai a’r rhai sy’n gofalu amdanynt, ac wedi ymrwymo i’w cefnogi drwy newid.

Yr anghenion a’r bylchau ariannu rydym wedi’u nodi ac rydym am ymdrin â hwy drwy’r fenter hon yw:

- anghenion atgyweirio adeiladau rhestredig, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd mwy gwledig
- gallu'r gweithlu a gwirfoddolwyr i reoli treftadaeth
- cefnogi treftadaeth addoldai nad yw'n hygyrch ar hyn o bryd, sydd mewn perygl neu heb gael ei defnyddio'n ddigonol, i gyflawni ei photensial

Cael gwybod mwy ym mha ffyrdd eraill yr ydym yn cefnogi addoldai.

## Ystyriaethau ar gyfer cais Treftadaeth mewn Angen: Addoldai

Anelwn at gefnogi prosiectau strategol yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd â’r potensial i gael effaith ar lefel ranbarthol neu genedlaethol a fydd yn:

- mynd i'r afael yn rhagweithiol â materion treftadaeth hirsefydlog ar raddfa fawr
- galluogi ymagwedd draws-diriogaethol gydlynus a fydd yn cryfhau cyflwyniad
- ymdrin â bylchau lle nad yw cynigion yn dod drwodd i’n rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol
- cyflymu syniadau ac ymyriadau newydd lle mae angen ymagwedd bwrpasol

Ein huchelgeisiau ar gyfer y fenter strategol hon yw ymdrin â rhai o'r nodau a'r anghenion a nodwyd gan waith ategol megis:

- prosiectau strategol ar raddfa fawr sy'n datblygu'r prosesau, y systemau, yr arweiniad a'r seilwaith sydd eu hangen drwy newid mewn defnydd, rheolaeth neu berchnogaeth
- prosiectau strategol ar raddfa fawr yn seiliedig ar ddealltwriaeth o anghenion treftadaeth a pherchnogion cynlluniau treftadaeth sy'n adeiladu gallu ymhlith enwadau a grwpiau ffydd llai i ddatblygu prosiectau mawrion
- prosiectau strategol sy'n sefydlu arwyddocâd diwylliannol a threftadaeth addoldai lle bod hynny o bosibl mewn perygl o gael ei golli
- prosiectau adeiladu gallu a all ddarparu cymorth, cyngor ac arweiniad ehangach i berchnogion a rheolwyr adeiladau a safleoedd crefyddol hanesyddol ar draws daearyddiaethau a mathau megis ariannu swyddogion cymorth
- mentrau sy'n dod â llawer o sefydliadau, grwpiau ffydd ac arianwyr ynghyd i gydweithio a dod o hyd i atebion i broblemau y mae mannau addoli a threftadaeth yn eu hwynebu
- cynlluniau sy'n darparu ariannu i archwilio dichonoldeb opsiynau mwy cynaliadwy ar gyfer defnyddiau presennol neu newydd o addoldai
- datblygu cynlluniau sy'n rhannu dysgu a chefnogaeth i wirfoddolwyr sy'n rheoli ac yn gofalu am dreftadaeth a gwneud hynny'n fwy hygyrch i gynulleidfaoedd ehangach
- prosiectau strategol sy'n treialu ymagweddau gwahanol at reoli addoldai ar raddfa ardal
- prosiectau sy'n archwilio treftadaeth addoldai i gefnogi a chyfrannu at yr economi leol ac ymwelwyr ar lefel genedlaethol neu ranbarthol
- prosiectau thematig a allai ddefnyddio technolegau arloesol i agor mynediad at dreftadaeth a chasgliadau

## Pwy all ymgeisio

Gall sefydliadau nid-er-elw, a phartneriaethau a arweinir gan sefydliadau nid-er-elw ym mhob cwr o'r DU wneud cais.

Nid yw addoldai unigol yn gymwys i gael eu hariannu drwy'r fenter strategol hon, nac ychwaith ceisiadau safle unigol ar gyfer prosiectau gwaith cyfalaf yn unig. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y rhain drwy ein rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

## Sut i wneud cais

Os oes syniad gennych ar gyfer prosiect: Treftadaeth mewn Angen: Addoldai, dechreuwch arni drwy gysylltu â'ch swyddfa Cronfa Treftadaeth leol.

Ar gyfer grantiau hyd at £250,000, gallwch gyflwyno Ymholiad Prosiect dewisol i dderbyn adborth ar eich syniad prosiect.

Ar gyfer grantiau dros £250,000 rhaid i chi gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb cyn gwneud cais. Dechreuwch deitl eich prosiect gyda #MoDd.

Dilynwch ein harweiniad Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol i baratoi a chyflwyno eich cais am grant hyd at £10m.

### Sut rydym yn gwneud penderfyniadau

Yn ogystal â’n prosesau o dan y rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, byddwn yn asesu sut mae eich prosiect yn ymdrin â'r anghenion a bylchau ariannu a nodwyd, ac â nodau ac uchelgeisiau’r fenter strategol. Mae’n bosibl y byddwn hefyd yn ystyried materion eraill, fel sicrhau lledaeniad daearyddol o’n hariannu.

Expand All accordions

## Trefi a Dinasoedd Natur

**Pwysig**

Mae’r arweiniad hwn ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi llwyddo yn y cam Mynegiad o Ddiddordeb (MoDd) a chael eu gwahodd i wneud cais i Drefi a Dinasoedd Natur am grantiau rhwng £250,000 ac £1miliwn.

Dylai fod gan bawb fynediad at barciau cyhoeddus a mannau gwyrdd trefol sy'n llawn treftadaeth naturiol a diwylliannol yn agos at ble maent yn byw. Mae tystiolaeth yn dangos ein bod ni i gyd yn teimlo’r budd pan fo natur yn rhan o’n bywydau bob dydd.

Bydd Trefi a Dinasoedd Natur yn dod â sefydliadau ar draws y DU ynghyd i ganolbwyntio ar wella ansawdd parciau hanesyddol a mannau gwyrdd trefol mewn trefi a dinasoedd cyfan, a mynediad iddynt, ac ar yr un pryd yn cefnogi dulliau newydd o ennyn diddordeb cymunedau lleol a chynhyrchu mwy o fuddsoddiad.

Trwy becyn cymorth sy’n cynnwys £15miliwn o ariannu i adeiladu capasiti a phartneriaethau, rhwydweithiau cymheiriaid i rannu dysgu ac atebion ymarferol, a chynlluniau i ddenu buddsoddiad, byddwn yn ysbrydoli, yn darparu adnoddau ac yn rhoi cymhellion i sefydliadau wireddu buddion byd natur wrth greu cymunedau mwy gwyrdd, iach a ffyniannus.

Mae Trefi a Dinasoedd Natur yn fenter bartneriaeth rhwng Natural England, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a’r Gronfa Treftadaeth. Rydym hefyd yn cydweithio’n agos â Chyfoeth Naturiol Cymru, NatureScot ac Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon.

### Ein huchelgais

Nod Trefi a Dinasoedd Natur yw cefnogi awdurdodau lleol, eu partneriaid a’u cymunedau gyda’r capasiti a’r adnoddau i roi mannau gwyrdd a glas cyhoeddus wrth wraidd eu ffordd o feddwl. Ewch i’r wefan Trefi a Dinasoedd Natur i gael gwybod mwy am ein cynlluniau a’n huchelgeisiau ehangach.

Erbyn 2028 rydym am fod wedi cefnogi lleoedd ar draws y DU gydag arian grant, ynghyd ag arbenigedd ac adnoddau gan ein partneriaid, er mwyn:

- rhoi mynediad at natur ac adferiad byd natur wrth wraidd creu lleoedd lleol fel y gellir gwireddu ei fanteision ar gyfer iechyd, ffyniant, byd natur, treftadaeth a balchder lleol
- cyd-greu strategaethau a chynlluniau gwella mannau gwyrdd uchelgeisiol gyda chymunedau a phartneriaid
- creu partneriaethau cryf ac amrywiol rhwng y cymunedau lleol, busnesau ac awdurdodau lleol sy'n canolbwyntio ar rôl mannau gwyrdd a glas trefol er mwyn cyflwyno canlyniadau gwell ar gyfer iechyd, lles, treftadaeth, trafnidiaeth, cynllunio a byd natur
- Datblygu cynlluniau gweithredu a fydd yn trawsnewid y ffordd y mae mannau gwyrdd cyhoeddus yn cael eu defnyddio, eu rheoli a'u hariannu er budd pobl a natur. Dylai hyn gynnwys datblygu cynlluniau prosiect wedi'u costio ac ymchwilio i sut i ddatgloi buddsoddiad newydd gan ystod eang o fuddsoddwyr ac arianwyr y tu hwnt i'r Loteri Genedlaethol yn unig.

## Ystyriaethau ar gyfer cais Trefi a Dinasoedd Natur

Bydd un rownd o ariannu a bydd grantiau ar gael rhwng £250,000 ac £1m. Gall eich prosiect bara hyd at dair blynedd a bydd yn ofynnol cyflwyno cais llawn.

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais yw **12 hanner dydd ar 14 Ebrill 2025**.

Bydd penderfyniadau ariannu'n cael eu gwneud yn gynnar ym mis Gorffennaf 2025 a byddwn yn anelu at gysylltu ag ymgeiswyr erbyn 11 Gorffennaf 2025.

Yn ychwanegol at ofynion safonol ein rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, gan gynnwys ymateb i bob un o'r pedair egwyddor fuddsoddi, dylai eich cais am brosiect:

- Ganolbwyntio ar yr holl fannau gwyrdd a glas trefol cyhoeddus ar draws lle cyfan. Chi sy'n pennu ffiniau'r lle – gallai fod yn ardal weinyddol awdurdod lleol neu gyfunol, yn dref, yn ddinas, yn ddinas-ranbarth neu'n nifer o drefi neu fwrdeistrefi'n gweithio ar y cyd.
- Nodi sut y byddwch yn arwain newid uchelgeisiol a fydd yn cyflwyno yn erbyn ein canlyniadau dymunol a sicrhau bod mannau gwyrdd yn darparu mwy ar gyfer pobl a lleoedd.
- Dangos sut y bydd tîm trawsddisgyblaethol a gwaith partneriaeth yn sicrhau ehangder o ran eich meddwl ac yn gweithio'n weithredol ar draws y sectorau treftadaeth, cynllunio, trafnidiaeth, iechyd, cymuned a byd natur.
- Nodi pa adnoddau neu gefnogaeth y bydd eu hangen arnoch. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, buddsoddi mewn arbenigedd a chapasiti ychwanegol i: ennyn diddordeb cymunedau lleol, datblygu partneriaethau strategol newydd, sefydlu cyrff newydd megis sefydliad neu ymddiriedolaeth, dylunio modelau ariannol newydd, datgloi a rhoi cymhellion buddsoddi newydd, datblygu ffrwd o brosiectau ac efelychu dysgu o'r menter Future Parks Accelerator.
- Neilltuo adnoddau a chapasiti i ymuno â digwyddiadau rhwydwaith a sesiynau gwaith carfan rheolaidd ar-lein, cyfrannu at weithio mewn carfannau a mynychu ymweliadau wyneb yn wyneb i ddysgu o brosiectau eraill. Rydym yn argymell neilltuo diwrnod y mis ar gyfer gweithgareddau rhwydweithio gan gynnwys carfanau dysgu, digwyddiadau, hyfforddiant ac ymweliadau safle.

**Cyfeiriwch at Nodiadau Cymorth Ymgeisio Trefi a Dinasoedd Natur i weld rhagor o wybodaeth am sut i sicrhau eich bod yn ystyried yr uchod yn eich cais.**

Bydd pob prosiect a ariennir yn derbyn cymorth arbenigol am ddim gan bartneriaid ar bynciau megis cynllunio seilwaith gwyrdd, ymgysylltu cymunedol a chyllid gwyrdd.

Ni fydd y fenter hon yn ariannu gwaith cyfalaf. Os dymunwch wneud cais am arian i adfywio parc hanesyddol neu wella safle byd natur sydd eisoes yn bodoli, gwnewch gais drwy ein rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

## Brand a chydnabyddiaeth

Bydd disgwyl i brosiectau ddefnyddio'r canllawiau brandio a chydnabyddiaeth ar gyfer Trefi a Dinasoedd Natur. Bydd y rhain yn cael eu rhannu ag ymgeiswyr llwyddiannus yn 2025.

## Pwy all ymgeisio

Mae ceisiadau’n agored i sefydliadau nid-er-elw, a phartneriaethau a arweinir gan sefydliadau nid-er-elw, ym mhob cwr o’r DU.

Rydym yn eich annog i weithio gyda phobl eraill i ddatblygu a chyflawni eich prosiect.

Os ydych yn bwriadu gweithio gydag unrhyw sefydliadau eraill i gyflawni cyfran sylweddol o'ch prosiect, mae'n rhaid i chi ffurfioli eich perthynas trwy gytundeb partneriaeth.

Os ydych yn gwneud cais ar y cyd, bydd angen i chi benderfynu pa sefydliad fydd yr ymgeisydd arweiniol. Bydd yr ymgeisydd arweiniol yn cwblhau'r cais, ac os yw'n llwyddiannus, bydd yn derbyn y grant ac yn darparu diweddariadau ar y prosiect.

Fel arfer rydym yn disgwyl mai perchennog y dreftadaeth (y man gwyrdd cyhoeddus) fydd yr ymgeisydd arweiniol. Os nad perchennog y dreftadaeth yw'r ymgeisydd arweiniol, byddwn fel arfer yn gofyn iddynt ymrwymo i delerau'r grant.

Os yw perchnogion preifat neu sefydliadau er-elw yn gysylltiedig â’r prosiect, rydym yn disgwyl i chi ddangos bod y budd cyhoeddus yn amlwg yn fwy na'r elw preifat. Rydym yn annhebygol o ariannu mwy nag un prosiect o'r un Lle.

## Sut i wneud cais

Os ydych wedi cael eich gwahodd i gyflwyno cais  gan ddilyn ein proses MoDd, rhaid i chi gyflwyno cais llawn erbyn 12 hanner dydd ar 14 Ebrill 2025 Dylech ddilyn Nodiadau Cymorth Ymgeisio Trefi a Dinasoedd Natur yn ofalus ac ateb pob cwestiwn yn ein ffurflen gais ar gyfer grantiau rhwng £250,000 a £10m.

Bydd penderfyniadau ariannu'n cael eu gwneud yn gynnar ym mis Gorffennaf 2025 a byddwn yn anelu at gysylltu ag ymgeiswyr erbyn 11 Gorffennaf 2025.

## Sut rydym yn gwneud penderfyniadau

Yn ychwanegol at ein prosesau o dan ein hymagwedd Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol safonol, byddwn yn asesu sut mae eich prosiect yn mynd i'r afael ag uchelgeisiau’r fenter hon.

Mae’n bosibl y byddwn hefyd yn ystyried materion fel sicrhau lledaeniad daearyddol o’n hariannu a/neu amrywiaeth o fathau gwahanol o sefydliadau.

Ar gyfer y fenter hon, bydd penderfyniadau ariannu'n cael eu gwneud gan Fwrdd Partneriaeth ar y Cyd gan gynnwys Ymddiriedolwr o'r Gronfa Treftadaeth a chynrychiolwyr o'r sefydliadau partner.

### Cysylltu â Ni

Os oes gennych gwestiwn am ein hariannu, mae croeso i chi gysylltu â'ch tîm buddsoddiadau lleol.

## Treftadaeth mewn angen a chyfleoedd ac argyfyngau eraill

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyblygrwydd ac ymateb yn gyflym pan fydd angen. Gallai hyn olygu cefnogi caffael treftadaeth eithriadol, nodi digwyddiadau arwyddocaol neu gefnogi meysydd o dreftadaeth a sefydliadau sy'n delio ag argyfwng nas rhagwelwyd.

Rydym hefyd yn ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer ariannu wedi'i dargedu ar gyfer treftadaeth sydd mewn perygl ac sydd angen cadwraeth. Ochr yn ochr ag ariannu prosiectau unigol, rydym am gefnogi sefydliadau i adeiladu gallu, datblygu dulliau cynllunio prosiectau ac amrywiaethu ffrydiau incwm.

### Gwneud penderfyniadau

Mae ein dull o wneud penderfyniadau ar fentrau strategol yr un fath â’n prosesau o dan raglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Ar gyfer grantiau o dan £250,000 mae penderfyniadau'n cael eu gwneud bob mis gan uwch staff buddsoddi neu ymgysylltu eich gwlad neu ardal. Ar gyfer grantiau dros £250,000, gwneir grantiau ar sail chwarterol gan bwyllgor eich gwlad neu ardal neu gan ein Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Efallai y byddwn yn amrywio ein proses gwneud penderfyniadau ar gyfer mentrau penodol, ond byddwn yn diweddaru ein gwefan pan fydd hyn yn digwydd.

### Mwy i ddod

Mae ein timau'n gweithio'n galed i ddatblygu'r mentrau a'r cyfleoedd hyn a byddwn yn rhannu rhagor o fanylion pan fyddant ar gael.

Cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr i gael ein newyddion a chyhoeddiadau diweddaraf wedi'u danfon yn uniongyrchol i'ch mewnflwch.

# Deall eich treftadaeth

Trwy archwilio gwahanol agweddau ar dreftadaeth eich prosiect, byddwch yn deall yn well ei pwysigrwydd i le, pobl a chymunedau, gan eich helpu i baratoi eich cais am ariannu gennym.

Trwy ddeall yn llawn y dreftadaeth y mae eich prosiect yn ymwneud â hi byddwch yn gallu:

- gwybod pam fod pobl yn gwerthfawrogi eich treftadaeth fel y gallwch wneud penderfyniadau sensitif a phriodol ynghylch sut i ofalu amdano yn y dyfodol
- nodi'r potensial ar gyfer atebion creadigol a chynaliadwy i wella cyflwr y dreftadaeth
- ymgysylltu'n well â'ch staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr
- datgelu gwybodaeth, mewnwelediadau neu safbwyntiau newydd ar eich treftadaeth

## Y ffordd orau i ddeall eich treftadaeth

Er mwyn deall eich treftadaeth, gallech ystyried y tri chwestiwn canlynol.

### Beth yw ffocws treftadaeth eich prosiect?

Dechreuwch trwy ddisgrifio'r dreftadaeth.

Os yw eich prosiect yn ymwneud â threftadaeth ddiwylliannol anniriaethol (fel atgofion neu draddodiadau diwylliannol a llafar) dylech ddisgrifio'r wybodaeth am y pwnc a'r cyfnod amser y mae'n ei gwmpasu. Amlygwch os yw'r dreftadaeth mewn perygl o gael ei cholli mewn unrhyw ffordd. Mae gennym rywfaint o wybodaeth am dreftadaeth anniriaethol a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

Os yw eich prosiect yn ymwneud â threftadaeth ffisegol (fel adeilad, llong, gwrthrych neu gasgliad hanesyddol, neu warchodfa natur), nodwch wybodaeth ffeithiol amdani, megis ei maint, ei oedran, y nodweddion sydd wedi goroesi, ei chyflwr a pham y mae'n bwysig i'ch ardal leol.

### Pam fod y dreftadaeth o bwys?

Ar ôl sefydlu'r ffeithiau dylech nawr feddwl pam yr ystyrir bod eich treftadaeth yn bwysig neu'n arwyddocaol.

Mae yna lawer o resymau pam fod pobl yn gwerthfawrogi treftadaeth ac eisiau ei gwarchod neu drosglwyddo traddodiadau i genedlaethau'r dyfodol. Ceisiwch farn gan amrywiaeth mor helaeth â phosibl o bobl.

Mae'r rhestr ganlynol o gwestiynau'n cynnig rhai ffyrdd o feddwl am yr hyn sy'n gwneud eich treftadaeth yn arbennig i bobl ond nid yw'n hollgynhwysol:

- Pam fod y dreftadaeth yn bwysig i hanes? A yw'n gysylltiedig â phobl a digwyddiadau pwysig?

- Sut mae'r dreftadaeth yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r gorffennol? Beth mae'n ei ddweud wrthym am bobl a chymdeithas?
- Beth yw rhinweddau artistig neu esthetig y dreftadaeth?
- Os oes ganddi leoliad ffisegol, sut mae'n cyfrannu at neu'n ategu'r amgylchedd ehangach? A yw'n dirnod?
- A yw'r dreftadaeth o bwysigrwydd technegol – a yw'n dweud wrthym am arloesi? Ai dyma'r cyntaf o'i bath?
- A yw'r dreftadaeth yn bwysig i wyddoniaeth, er enghraifft oherwydd ei bywyd gwyllt, daeareg, bioamrywiaeth neu ecoleg?
- A yw'r deunyddiau y mae wedi'i gwneud ohonynt yn bwysig? A yw'n dangos sgil crefft arbennig yn dda?
- Sut mae'n cymharu â threftadaeth arall o'i bath? A yw'n enghraifft brin neu unigryw neu'r gorau o'i bath?
- A yw'r dreftadaeth wedi cael sylw mewn ffilmiau, paentiadau neu mewn llenyddiaeth?
- A yw'r dreftadaeth yn bwysig am resymau coffaol neu ysbrydol?
- Os yw'n draddodiad, arferiad, sgil neu wybodaeth, a yw'n cael ei arfer heddiw? Sut mae wedi cael ei throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth?
- A yw gwerth y dreftadaeth wedi newid dros amser? A oedd yn bwysig am resymau gwahanol yn y gorffennol?
- A yw'r dreftadaeth yn helpu creu ymdeimlad o berthyn, neu efallai'n meithrin ymdeimlad o falchder yn yr ardal?

Weithiau mae treftadaeth yn cael ei chofrestru, ei dynodi neu ei gwarchod mewn rhyw ffordd oherwydd bod iddi arwyddocâd arbennig a bod angen ei diogelu rhag newidiadau niweidiol. Darganfyddwch a yw eich treftadaeth wedi'i chofnodi yn unrhyw le, er enghraifft efallai ei bod wedi'i chofrestru fel rhywogaeth warchodedig, adeilad rhestredig, tirwedd ddynodedig neu draddodiad a gydnabyddir gan UNESCO.

Yn aml bydd y cofnod dynodi'n rhoi manylion am yr hyn y mae arbenigwyr yn ei gredu sy'n bwysig.

## I bwy mae'r dreftadaeth o bwys?

Mae'n dda casglu sylwadau a barn ar werth y dreftadaeth o ystod o ffynonellau. Efallai y bydd angen i chi gomisiynu mewnbwn gan arbenigwyr yn y maes perthnasol ond dylech hefyd sicrhau eich bod wedi siarad â sampl cynrychioliadol o'r bobl sy'n rhyngweithio â'ch treftadaeth. Mae'n bosibl y byddan nhw hefyd yn gallu ysgrifennu llythyr o gefnogaeth pan fyddwch yn gwneud cais, gan ddangos i ni fod diddordeb gwirioneddol yn eich prosiect.

Gall y grwpiau hyn gynnwys:

- y gymuned sy'n byw neu'n gweithio gerllaw, os oes gan eich treftadaeth leoliad ffisegol
- unrhyw grwpiau sydd â diddordeb yn eich treftadaeth, megis grwpiau ffrindiau neu grwpiau diddordeb lleol
- pobl sy'n defnyddio'r safle/gwrthrych treftadaeth nawr, neu sy'n ei ymarfer neu ei berfformio os yw'n sgil neu'n draddodiad
- arbenigwyr cydnabyddedig yn y maes perthnasol
- sefydliadau cadwraeth natur statudol (SNCOs) ac adrannau cadwraeth awdurdodau lleol

- gwirfoddolwyr sy'n helpu gofalu am y dreftadaeth

Cofiwch ystyried grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol hefyd nad ydynt efallai'n rhyngweithio â'ch treftadaeth ar hyn o bryd, ond a allai wneud yn y dyfodol os caiff unrhyw rwystrau posibl eu dileu. Gweler ein canllaw i redeg prosiectau treftadaeth cynhwysol.

Unwaith y byddwch wedi nodi pwy y byddwch yn siarad â nhw, gallwch ystyried sut i fynd ati i wneud hyn. Bydd y dulliau'n dibynnu ar eich prosiect, gyda phwy rydych am siarad a'r adnoddau sydd ar gael i chi, ond gallent gynnwys gweithgareddau fel arolygon, grwpiau ffocws neu ymgysylltu ar-lein neu drwy gyfryngau cymdeithasol.


## Rhannu eich dealltwriaeth

Ar ôl casglu gwybodaeth am eich treftadaeth a pham ei bod yn bwysig, y cam nesaf yw cofnodi eich canfyddiadau fel y gallwch eu rhannu â phobl eraill a'u defnyddio i helpu gyda'ch cais am ariannu.

Rydym yn darparu llawer o ganllawiau arfer da i  helpu i ddatblygu eich syniad yn brosiect treftadaeth gwych.

Mae'n si?r y bydd rhywbeth sy'n berthnasol i'ch sefydliad neu syniad ar gyfer prosiect, gyda chyngor arfer gorau mewn meysydd fel: gwerthuso, hanes llafar, gweithio gyda gwirfoddolwyr, digidol, cynllunio cadwraeth a llawer mwy.

Os ydych yn bwriadu gwneud gwaith ar adeilad eglwys, efallai y bydd angen i chi baratoi dogfennau fel datganiadau o arwyddocâd ac unrhyw anghenion atgyweirio hefyd. Mae gan Eglwys Loegr arweiniad ar ysgrifennu datganiadau o arwyddocâd ac anghenion.



## Angen ysbrydoliaeth?

Darganfyddwch prosiectau rydym wedi'u hariannu

Archwilio prosiectau